Manyleb Person WCAT 2027

Dylid defnyddio'r fanyleb person hon ar y cyd â'r fanyleb person Arbenigedd Clinigol berthnasol wrth asesu cymwyseddau clinigol.

	HANFODOL	DYMUNOL	PRYD Y CAIFF EI WERTHUSO
CYMHWYSEDD	• Tystiolaeth o gyflawni cymwyseddau'r Rhaglen Sylfaen neu gymwyseddau cyfatebol.	• Tystiolaeth o ymrwymiad i'r arbenigedd	Ffurflen gais
	• Tystiolaeth o gynnydd llwyddiannus mewn hyfforddiant clinigol mewn Rhaglen Hyfforddi Arbenigol/Craidd a gymeradwywyd gan y Ddeoniaeth. Wedi'i ddangos drwy ARCP llwyddiannus.	• Gradd anrhydedd ryngosodol a/neu gymwysterau ychwanegol, e.e. MSc ac ati	
	• Tystiolaeth o addasrwydd clinigol ar gyfer yr arbenigedd clinigol a ddewiswyd ar adeg ymuno â WCAT. Wedi'i ddangos drwy le ar raglen hyfforddi a gymeradwywyd gan y Ddeoniaeth neu dystiolaeth ddiweddarach o fod yn gymwys i'w benodi **	• Cwblhau Rhaglen Sylfaen Academaidd neu raglen gyfatebol	
GWYBODAETH A CHYFLAWNIADAU	• Dangos eich bod wedi ennill y lefel o wybodaeth a sgiliau sy'n angenrheidiol i gyflawni cymwyseddau'r Rhaglen Sylfaen a chymwyseddau clinigol (sy'n cyfateb i'r lefel mynediad), neu gymwyseddau cyfatebol • Dangos dealltwriaeth o yrfa academaidd ac ymrwymiad iddi	• Gwobrau, Anrhydeddau, Cymrodoriaethau, Grantiau neu Ragoriaethau • Cyflwyno gwaith mewn cyfarfod cenedlaethol neu ryngwladol • Cyhoeddiadau o bwys mewn cyfnodolion a adolygir gan gymheiriaid	Ffurflen Gais a Chyfweliad
	• Dangos y potensial i fod yn annibynnol yn wyddonol a'r gallu i arwain tîm ymchwil		

AGWEDDAU ADDYSGOL A PHERSONOL	• Dangos dealltwriaeth o yrfa academaidd ac ymrwymiad iddi • Dangos gweledigaeth glir ar gyfer gyrfa academaidd glinigol		Ffurflen Gais a Chyfweliad

*** Bydd preswylwyr nad oes ganddynt, ar adeg gwneud cais i gynllun WCAT, Rif Hyfforddi Cenedlaethol na lle ar Raglen Hyfforddi Graidd yn yr arbenigedd o'u dewis (h.y. LAS, FTSTA, LAT, Sylfaen), os byddant yn llwyddiannus, yn cael cynnig amodol ar yr amod y bernir bod y preswylydd yn gymwys i'w benodi i'r arbenigedd o'i ddewis drwy gyrraedd y gofyniad y cytunwyd arno'n genedlaethol mewn cyfweliad clinigol dilynol. Disgwylir i breswylwyr o'r fath wneud cais am raglenni hyfforddi clinigol ar yr un pryd ag y caiff swyddi WCAT eu hysbysebu neu'n syth wedi hynny.*

Bydd y cynigion amodol hyn yn parhau'n ddilys nes bod rownd gyntaf y broses recriwtio genedlaethol ar gyfer yr arbenigedd clinigol wedi'i chwblhau neu nes bod swyddi WCAT yn dechrau. Dylai preswylwyr ymgyfarwyddo ag amserlenni'r rowndiau recriwtio cenedlaethol. Os bydd y preswylydd, erbyn mis Awst 2027, wedi methu â darparu'r dystiolaeth ofynnol (gwybodaeth am safle o system ymgeisio Oriel neu raglen hyfforddi a gymeradwywyd gan y Ddeoniaeth sy'n para o leiaf 2 flynedd ar gyfer yr arbenigedd clinigol) ei fod yn gymwys i'w benodi drwy'r broses ddethol genedlaethol, caiff y cynnig ei dynnu'n ôl.